Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 29 Tachwedd 2016

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, G. Parry, Mervyn Jones, Meirion Jones, S. Edwards, H. Huws, D. Williams, D. James,
Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	A. Williams, E. Parry, G. C. Jones, J. Evans (Cynghorwr Sirol)		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.		
3.0	**Ymweliad gan PCSO**		
	Nodwyd bod y PCSO wedi gyrru eu hymddiheuriadau ac yn bwriadu mynychu un o gyfarfodydd nesaf y Cyngor Bro		
4.0	**Cyfrifon Mis Tachwedd 2016**		
4.1	Nodwyd bod angen i'r clerc gwneud ymholiadau i weld os allith y Cyngor Bro dderbyn a defnyddio cerdyn banc i wneud taliadau	**D. Owen**	
4.2	Clerc I wneud ymholiadau i weld faint o arian all y Cyngor Bro ei drosglwyddo eu cadw yn y cyfrif cadw gan fod arian i weld wedi adeiladu yn y cyfrif cyfredol.	**D. Owen**	
4.3	A. Jones yn nodi ei fod wedi cael gafael ar fat bowlio arall i'r Neuadd Goffa, gyda chost o £200 (dau gant o bunnoedd) am nwyddau ychwanegol. Mervyn Jones yn cynnig, Meirion Jones syn eilio, cytunwyd i symud ymlaen i gael y mat bowlio a nwyddau newydd.		
4.4	G. Parry yn cynnig, J. Roberts yn eilio, derbyniwyd y cyfrifon fel y rhai cywir		
5.0	**Materion y Cyngor Sir**		
5.1	Meirion Jones yn nodi bod y Gyllideb allan i ymgynghoriad tan Ionawr a bod llyfrgelloedd, gwasanaethau cymunedol a chlybiau Ieuenctid wedi clustnodi am doriadau.		
5.2	Meirion Jones syn nodi bod gwrandawiad cais cynllunio Hen Lon Dyfnia wedi bod ac mae penderfyniad terfynol i'w ddisgwyl yn Rhagfyr		
5.3	A. Mummery yn nodi bod pryder am ddyfodol y Swyddfa Bost yn y Pentref a does dim diweddariad wedi ar gael ar y sefyllfa ar hyn o bryd.		
6.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 25 Hydref 2016**		
6.1	J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
7.0	**Materion yn codi**		
7.1	Twr Marcwis - A. Mummery am adrodd yn ôl pan fydd ganddo ddiweddariad	**A. Mummery**	
7.2	Plac ar dy Kyffin Williams - Meirion Jones a S. Edwards am barhau i weithredu ar drefniadau erbyn Mis Mai	**Meirion Jones a S. Edwards**	**Mai 2017**
7.3	Llwybr beicio - H. Huws yn nodi bod angen rhoi marciau newydd ar y ffordd. Clerc I hysbysu'r Cyngor Sir.	**D. Owen**	**13/12/16**
7.4	Grant memorials fund am waith ar y cloc - Clerc I gysylltu â Saer Maen lleol am gyngor pellach ar atgyweirio'r cloc	**D. Owen**	**13/12/16**
7.5	Ffens rhwng cae pêl droed a Threm Eryri - A. Mummery yn nodi ei fod yn disgwyl amcan bris gan North Wales Fencing I wneud gwaith dros dro ac i gael pris i newid y ffens yn gyfan.	**A. Mummery**	**13/12/16**
7.6	Tagfeydd traffic Ffordd Caergybi/Ffordd Penmynydd - Clerc I gysylltu ag Adran Priffyrdd CSYM I ofyn iddynt gysidro ymestyn llinellau melyn yn y mannau yma.	**D. Owen**	**13/12/16**
7.7	Trustees y Neuadd Goffa - Cytunwyd I benodi aelodau yng Nghyfarfod Rhagfyr		

7.8	Fynwent - G. Parry yn nodi bod angen gwaith yn y fynwent ble mae gwreiddiau coed yn dod trwy'r llwybr. Cytunwyd I ofyn I E. Parry weithredu		
8.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 08 Tachwedd 2016**		
8.1	A. Jones yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
9.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
9.1	Wifi - A. Jones yn nodi bod y mater wedi i basio ymlaen i gwynion busnes ond dim diweddariad pellach. Clerc I gysylltu â BT am ddiweddariad, ac os nad oes un i'w gael mewn amser yn bygwth mynd at y wasg.	**D. Owen**	**13/12/16**
9.2	Ymgyrch codi arian - A. Mummery yn nodi am nad oedd y Cyngor Bro yn ddigon arbenigol, penderfynwyd edrych am gymorth i geisio am y grantiau. Nodwyd bod Rita Lyons yn fodlon rhannu'r gwaith y mai wedi gwneud hyd yn hyn, ond ni allith barhau i weithredu ei hun. A. Mummery wedi cael cyswllt newydd a allai helpu, S. Edwards yn cynnig, J. Roberts yn eilio, cytunwyd i ofyn I Mark Roberts I barhau a'r gwaith.		
10.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae 08 Tachwedd 2016**		
10.1	A. Jones yn cynnig, A. Mummery yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
11.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
11.1	Cais yswiriant - Clerc wedi gyrru'r wybodaeth ymlaen, disgwyl sylwadau pellach		
12.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 08 Tachwedd 2016**		
12.1	A. Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
13.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
13.1	Gwelliannau pentrefol - S. Edwards am barhau i lenwi ffurflen gais am grant am welliannau pentrefol. H, Huws yn cynnig paentio ffens ger mynediad Pant Lodge fel gwelliant i'w gynnwys yn y cais. Cytunwyd I gynnal sesiwn casglu syniadau yn lle cyfarfod Pwyllgor Fynwent ym Mis Ionawr		
14.0	**Tirmon 2017/18 a 2018/19**		
14.1	Cytunwyd I gadw'r un lefel o doriadau. Clerc I yrru i gwmnïau lleol yn gofyn iddynt roi prisiau, a hefyd i'w hysbysu mewn Papur Newydd	**D. Owen**	**13/12/16**
15.0	**Cwblhau Awdit 2015/16**		
15.1	Derbyniwyd yr awdit. Clerc I wneud trefniadau i gwblhau		
16.0	**Polisi Iaith y Cyngor Bro**		
16.1	D. James yn nodi mai'r fersiwn Gymraeg y mae wedi ei newid. Cytunwyd bod y newidiadau yn dderbyniol a diolchwyd I D. James am ei waith. Cytunwyd I'r clerc yrru ymlaen i'r comisiynwr iaith i'w gymeradwyo.	**D. Owen**	**13/12/16**
17.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
17.1	31C436 Cais llawn ar gyfer gwahanu'r annedd bresennol I 2 annedd ar wahân ynghyd ac ehangu ac addasu yn 1-2 Tai Lôn, Llanfairpwll - Dim sylw		
17.2	31C419B - Cais llawn i godi 2 annedd, creu mynedfa i gerbydau ynghyd a chysylltu â'r system trin carthion presennol yn Hafod y Bryn, Lon Tŷ Croes, Llanfairpwll - Dim sylw		
17.3	31C148B - Cais llawn ar gyfer codi cyntedd yn Capel Ebeneser, Llanfairpwll - Dim sylw		
18.0	**Gohebiaeth**		
18.1	Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth		
18.2	Cyngor Sir - Etholiad Cyngor Tref/Cymuned 2017 - Pwyllgor Cyllid I'w drafod		
18.3	Cyngor Sir - Fforwm mynediad Lleol Ynys Môn - Clerc I'w yrru ymlaen I John G. Jones	**13/12/16**	
18.4	Cyngor Sir - Deddf Briffyrdd 1980 (Adran 118) - Cynnig diddymu Llwybr rhif 3 Llanfairpwll - Derbyn y wybodaeth		
18.5	Grid Cenedlaethol - Nodyn atgoffa am yr ymgynghoriad - Cytunwyd I H. Huws ddrafftio ymateb ar ran y Cyngor Bro a'r clerc i'w yrru ymlaen	**13/12/16**	

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 13 Rhagfyr 2016 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa